Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Y trydydd adroddiad ar hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Hydref 2025

senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Y trydydd adroddiad ar hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Hydref 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 5**

**2. Ystyried y gŵyn ........ 6**

**3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor ........ 7**

**4. Gwersi a ddysgwyd o'r gŵyn hon ........ 10**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn Rheol Sefydlog 22.[1] Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, rhaid i'r Pwyllgor:

> *"mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau…ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi."*[2]

**2.** Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.23 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd ("y Weithdrefn")[3] ac mae'n ymwneud â chŵyn a wnaed i'r Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd").

**3.** Esgusododd Mick Antoniw AS ei hun o ystyried y mater hwn, a gweithredodd John Griffiths AS fel dirprwy.

**4.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am y gŵyn a thrafodaethau'r Pwyllgor wrth ddod i benderfyniad.

**5.** Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelod ac i'r Achwynydd.

**6.** Mae'n ofynnol o dan y Weithdrefn i'r Pwyllgor wneud adroddiadau gan y Comisiynydd yn ddienw yn yr achosion hynny lle mae cwyn wedi'i dyfarnu'n dderbyniol, ond na chanfuwyd achos o dorri'r Cod. Mewn achosion o'r fath, yn hytrach na golygu gwybodaeth, mae'r Pwyllgor yn cynhyrchu crynodeb o rannau perthnasol adroddiad y Comisiynydd ac ystyriaeth y Pwyllgor ohono.

[1] Rheolau Sefydlog
[2] Rheol Sefydlog 22.2(i)
[3] Gweithdrefn y Senedd ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

# 2. Ystyried y gŵyn

**7.** Daeth cwyn i law'r Comisiynydd am ymddygiad Aelod ar y cyfryngau cymdeithasol. Nododd yr Achwynydd fod y negeseuon ar gyfrif X (Twitter, gynt) yr Aelod wedi lledaenu gwybodaeth anghywir amdanynt ac wedi ymgysylltu â chyfrif sy'n adnabyddus am gynnwys hiliol, sy'n rhannu barn, ac yn Islamoffobig.

**8.** Honnodd yr Achwynydd, hefyd, yn sgil y negeseuon, fod nifer o sylwadau bygythiol a sarhaus wedi'u gwneud am yr Achwynydd a'i staff a bod y rheini wedi'u cyfeirio at yr heddlu.

**9.** Nododd y Comisiynydd yn ei adroddiad fod y gŵyn yn dderbyniol, ac ar ôl ymgysylltu â'r heddlu, cafodd wybod eu bod yn fodlon na fyddai ei ymchwiliad yn niweidio unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu.

**10.** Cyfarfu'r Pwyllgor ar 16 Medi, 7 Hydref a 13 Hydref 2025 i ystyried adroddiad y Comisiynydd, a dod i'w gasgliad ynghylch y gŵyn hon.

# 3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor

**11.** Bu'r Pwyllgor yn trafod p'un a dorrodd yr Aelod Reol Sefydlog 22.2(i).

**12.** Wrth drafod a fu achos o dorri'r Cod, adolygodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Comisiynydd fel y'u nodir yn ei adroddiad.

**13.** Ni fanteisiodd yr Aelod ar y cyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'r Pwyllgor.

**14.** Honnodd yr Achwynydd fod yr Aelod wedi torri'r rheolau canlynol:

- **Rheol 1:** Rhaid i aelodau gynnal yr Egwyddorion Cyffredinol (yn benodol yr egwyddorion Parch, Anhunanoldeb ac Uniondeb);
- **Rheol 3:** Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar y Senedd neu ei Haelodau yn gyffredinol; a hefyd
- **Rheol 4:** Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd nas dymunir, aflonyddu, bwlio na gwahaniaethu.

**15.** Nododd yr Achwynydd, hefyd, fod yr Aelod wedi lledaenu gwybodaeth anghywir a rhannu gwybodaeth am yr Achwynydd, gan gamliwio ei weithgareddau a'i genhadaeth mewn modd annheg. Nododd y Comisiynydd, pe bai'n cael ei brofi, y gallai ymddygiad o'r fath fod yn groes i egwyddor Gonestrwydd Rheol 1 a Rheol 2 (dyletswydd i weithredu'n onest).

**16.** Sefydlwyd gan y Comisiynydd fod aelod o staff a gyflogwyd gan yr Aelod wedi postio fideos a thestun mewn ymateb i linc a rannwyd gan sefydliad. Roedd y fersiwn o'r fideo a rannwyd gan yr Aelod o staff wedi tarddu o lwyfan a oedd yn cynnwys 'negeseuon hynod o sarhaus ('*grossly offensive*').

**17.** Sefydlwyd ymhellach, gyda chaniatâd yr Aelod, fod yr aelod o staff, ers sawl blwyddyn, wedi anfon cyfran sylweddol o negeseuon o gyfrifon yr Aelod ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr Aelod staff, hefyd, yn ymwybodol bod cwynion blaenorol yn erbyn yr Aelod, a oedd yn nodi geiriau tebyg iawn, wedi cael eu hystyried yn annerbyniol a'u gwrthod.

**18.** Nododd y Comisiynydd fod y fideo wedi cael ei lawrlwytho a'i rannu gan lawer o grwpiau ac unigolion asgell dde eithafol ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn dilyn hyn, bod y sefydliad, ei staff a'i wirfoddolwyr wedi bod yn destun negeseuon camdriniol a bygythiol y cyfryngau cymdeithasol.

**19.** Dyma farn y Comisiynydd:

> " … *the evidence was clear the Member did not post either of the tweets that are the subject of the complaint. There is nothing in the Code of Conduct making a Member vicariously responsible for the conduct of their staff. That being so, I am clear that the Member did not breach any of the above provisions of the Code.*"

**20.** Aeth ymlaen i ddweud ei fod wedi ystyried a ddylai ymestyn ei ymchwiliad i gynnwys toriad posibl o Reol 24 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau "gymryd camau rhesymol i sicrhau bod eu staff, wrth weithredu ar eu rhan, hefyd yn cynnal ac yn gweithredu yn unol â'r Rheolau hyn a'r Egwyddorion Cyffredinol"[4], ond daeth i'r casgliad a ganlyn:

> "I *decided against doing so. The staff member had been the Member's senior adviser for the last three of the nine years [they] had been employed by the Member. One of [their] main work areas was communications and [they were] experienced in the use of social media. Although [they were] unaware that the video and text on the [name] account referred to in Finding S could be accessed by means of the blue button on the videos [they] posted, I am satisfied that the link function by means of the button was not widely known and would not have been covered in any social media training.*"

**21.** Mewn perthynas â pharagraff 109 o'r canllawiau[5] i'r Cod Ymddygiad, sy'n datgan: "*Ni chaniateir i Aelod geisio osgoi'r Cod, drwy ofyn i'w staff gymryd camau y byddai'r Cod yn eu hatal rhag eu cymryd eu hunain*", dywedodd y Comisiynydd:

> "*I was satisfied that there was no attempt to bypass the Code provisions. It is clear from the evidence that in a discussion between the Member and [their] staff member earlier that week, it had been agreed that there should be a focus on the Member's long-term opposition to [a Welsh Government policy] which was a live issue in parts of [their] constituency. It was left to the staff member to decide how best to do that. It was also clear that the Member was in full agreement with the text posted by [their] employee which was very similar to text that*

[4] Cod Ymddygiad ar Safonau Ymddygiad Aelodau o'r Senedd, Rheol 24
[5] Canllawiau ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd, paragraff 109

*had been posted on several previous occasions. Complaints about these previous posts had been dismissed because, although inaccurate, they were neither untruthful nor dishonest. I did not consider that the Complainant's assertion that describing the videos as 'propaganda' was "disseminating false information." The videos were one sided and fell within the customary definition of propaganda."*

**22.** O ran cynnwys y swyddi, penderfynodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

> "*Because the posts were not made by the Member and so could not amount to a breach of the Code, it was not necessary for me to form an opinion about the truthfulness and honesty of the text or whether by unwittingly providing a link to the [name] account and its undoubtedly offensive content there had been a breach of a relevant provision. For the same reason it was unnecessary for me to consider whether the threats and abusive messages referred to in Finding U were because of the posts, or as I suspect much more likely, the offensive material and videos on the [name] and other extremist sites such as [name].*"

**23.** Ar y ffeithiau a sefydlwyd, daeth y Comisiynydd i'r casgliad a ganlyn:

> "*It is my opinion that no breach of any relevant provision has been established*"

**24.** Fodd bynnag, argymhellodd y Comisiynydd y canlynol i'r Pwyllgor, ar fater o egwyddor:

> "*Although I am clear that there was no attempt by the Member to avoid the Code provisions, the absence of any provision making Members responsible for the conduct of their staff provides a loophole that could be exploited by any unscrupulous Member. The Committee may wish to consider how this loophole could best be closed.*"

Ar ôl ystyried y wybodaeth a oedd ar gael, a'r holl sylwadau, cytunodd y Pwyllgor â chasgliad y Comisiynydd nad oedd y Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri.

# 4. Gwersi a ddysgwyd o’r gŵyn hon

**25.** Cytunodd y Pwyllgor â chanfyddiad y Comisiynydd nad oedd y gŵyn hon yn berthnasol i Reol 24 gan fod yr aelod o staff yn gweithredu yn unol â chais yr Aelod. Fodd bynnag, mae ystyried y gŵyn hon wedi annog y Pwyllgor i fyfyrio ar yr angen i ddatgan yn benodol mai nhw sy’n gyfrifol am wybodaeth a gyhoeddir yn enwau’r Aelodau.

**26.** Mae’r canllawiau sy’n gysylltiedig â Rheol 24 yn nodi fel a ganlyn, ar hyn o bryd:

> “*Yr Aelodau sy’n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau eu bod hwy eu hunain a’u staff yn ymwybodol o gynnwys y Cod a’r holl ganllawiau cysylltiedig a gwybodaeth ychwanegol. Nid yw anwybodaeth o ddarpariaethau’r Cod yn rheswm dilys dros eu torri.*”
>
> “*Ni chaniateir i Aelod geisio osgoi’r Cod, drwy ofyn i’w staff gymryd camau y byddai’r Cod yn eu hatal rhag eu cymryd eu hunain.*”[6]

**27.** Yr Aelod sydd i benderfynu ar yr ymreolaeth a roddir i’w staff i weithredu ar ei ran. Fodd bynnag, pan fydd aelodau o staff yn gweithredu’n benodol yn enw’r Aelod, a’i bod yn ymddangos i’r cyhoedd fel pe bai’r Aelod ei hun yn gweithredu (er enghraifft postio ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol yn enw’r Aelod), yna yn y pen draw dylai’r Aelod gymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod unrhyw gamau o’r fath yn unol â’r Cod. Mae rhyddhau Aelodau o gyfrifoldeb pan gyhoeddir gwybodaeth yn benodol o dan eu henw yn groes i ysbryd y Cod, a gall roi modd i Aelodau osgoi darpariaethau perthnasol yn anfwriadol. Disgwyliad y Pwyllgor hwn yw y bydd yr Aelodau’n cymryd cyfrifoldeb am reoleiddio unrhyw wybodaeth a gyhoeddir yn eu henw, gan y bydd y cyhoedd yn canfod bod y wybodaeth wedi’i chyhoeddi gan yr Aelod yn bersonol.

**28.** Hoffai’r Pwyllgor, hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i atgoffa’r Aelodau am yr effaith negyddol y gall eu gweithredoedd ei chael ar unigolion a sefydliadau. Mae gan Aelodau sy’n cysylltu eu henwau â negeseuon fel yr un sy’n cael ei hymchwilio yn yr adroddiad hwn gyfrifoldeb i archwilio eu ffynonellau’n iawn, gan wybod bod eu henw a’u safle fel deiliaid swyddi etholedig yn rhoi pwys i’r negeseuon y maen nhw’n eu cyfleu.

[6] Canllawiau ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o’r Senedd, paragraffau 108 a 109

**29.** Yn ei adroddiad i'r Pwyllgor, nododd y Comisiynydd y canlynol o ran y rheini'r oedd y neges yn cyfeirio atynt:

> "... *were subjected to a large number of abusive messages. These messages included what the [organisation] described as "racial slurs, Islamophobic hate speech, and explicit death threats".*"

**30.** Rydym yn derbyn nad yw cynnwys y negeseuon wedi bod yn destun ymchwiliad yn yr achos hwn, ond mae'r niwed a wnaed o ganlyniad i'r negeseuon yn destun pryder mawr i'r Pwyllgor.

**31.** Ein bwriad, felly, yw ystyried cyflwyno system newydd o reol annibynnol mewn perthynas â defnyddio cyfrifon Aelodau ar y cyfryngau cymdeithasol, i egluro bod yr Aelodau'n gyfrifol am wybodaeth a ryddheir yn eu henw – boed yn cael ei chyhoeddi gan yr Aelodau eu hunain, neu staff sy'n gweithredu ar eu rhan.

**32.** Mae angen cytundeb y Senedd ar gyfer unrhyw newidiadau i'r Cod Ymddygiad, ac mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyflwyno argymhellion yn y maes hwn fel rhan o'i adolygiad ehangach o'r Cod cyn diwedd y Chweched Senedd. Gyda hynny mewn golwg, a hyd nes y bydd y newidiadau hyn wedi'u cytuno a'u cyhoeddi, bydd unrhyw gwynion o'r natur hon yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn unol â'r casgliadau a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae hyn yn golygu na fydd Aelod yn gallu amddiffyn ei hun rhag cyfrifoldeb drwy ddibynnu ar y ffaith bod aelod o staff wedi postio ar y cyfryngau cymdeithasol ar ran yr Aelod. Byddwn yn ysgrifennu at holl Aelodau'r Senedd, gan dynnu eu sylw at ganfyddiadau'r adroddiad hwn, a nodi ein disgwyliadau hyd nes bydd y newidiadau hynny wedi'u cyhoeddi.

**33.** Gyda'r etholiadau ar ddod, ac Aelodau'n fwy tebygol o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'u hymgyrchoedd, mae'r adroddiad hwn yn arbennig o amserol ac yn pwysleisio'r angen i fod yn glir ynghylch disgwyliadau yn y maes hwn.